Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Trysor Bach**

**Ysgol Gynradd Betws**
**32 Heol Betws**
**Rhydaman**
**SA18 2HE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/06/2023

# Meithrinfa Trysor Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Rhagfyr 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth addas.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli'r rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gadarnhaol, ac maent yn fodelau rôl da. Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda iawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod diogelwch yr amgylchedd yn cael ei flaenoriaethu. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas dan do ac yn yr awyr agored, gydag amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant sy'n cael gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal yn rheolaidd ac yn casglu barn a syniadau gan y rhieni er mwyn gwneud gwelliannau yn y lleoliad yn y dyfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio digonol. Mae'r partneriaethau yn gadarn.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu yn hyderus, gan gael gafael ar yr adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel yn y lleoliad. Maent yn ddigon bodlon rhoi eu cysurwyr i'r staff wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Mae'r plant yn gwybod y bydd y staff yn gweithredu ar eu safbwyntiau a'u diddordebau ac yn eu parchu. Er enghraifft, defnyddiodd y plant eu syniadau eu hunain i brintio patrwm pili-pala yn ystod gweithgaredd crefft a pheintio. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus wrth wneud penderfyniadau er mwyn diwallu eu hanghenion eu hunain. Gwnaethant benderfynu gorwedd ar fag ffa, gan helpu eu hunain i flanced er mwyn ymlacio.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn fodlon ac yn chwarae ochr yn ochr ag eraill. Er enghraifft, maent yn chwarae gyda'r adnoddau chwarae rôl ar unwaith. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad o falchder. Roeddent yn gwenu wrth i'r staff eu canmol am osod eu cotiau ar y pegiau ac wrth i'r staff eu cymeradwyo am adnabod anifeiliaid mewn llyfrau. Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda â'r staff. Roeddent yn llawn balchder wrth ddangos y cymeriadau cartŵn ar eu siwmperi a'u trowsusau a 'u henwi.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn rhyngweithio'n dda â'r staff sy'n gyfarwydd iawn iddynt. Mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau gan y staff. Maent yn gwrando'n dda wrth i'r staff eu cynghori i fod yn ofalus wrth redeg. Mae gan y plant gysylltiadau da â'r staff. Roeddent yn mynd at y staff i gael mwythau yn ôl yr angen. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac maent yn dda am rannu. Maent yn rhannu'r môr-ladron a'r deinosoriaid yn llwyddiannus wrth ymgymryd â gweithgareddau chwarae byd bach. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch. Roeddent yn dweud wrth y staff eu bod yn gweld eisiau eu ffrindiau nad oeddent yn bresennol. Mae'r plant yn dangos cwrteisi at y staff. Maent yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y staff yn gofyn iddynt ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Roeddent yn hapus wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae dychmygol gyda siarcod yn y tywod a chanu'r gân '*baby shark*'. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau gwneud marciau. Gwnaethant wneud marciau a llinellau gyda sialciau yn yr awyr agored, gwneud patrymau gyda'u bysedd gan ddefnyddio ewyn a defnyddio rhaglen gyfrifiadurol gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau parhaus. Yn ystod gweithgaredd chwarae rôl, gwnaethant chwarae gêm ddychmygol meddyg a chlaf, gan ddefnyddio adnoddau megis thermomedr a stethosgop. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn ymddiddori mewn llyfrau. Gwnaethant helpu eu hunain i lyfr am ddeinosoriaid a gwneud sŵn rhuo mawr wrth iddynt edrych ar y lluniau.

Mae'r plant yn datblygu rhywfaint o sgiliau annibyniaeth. Cânt gyfleoedd addas i ddatblygu eu sgiliau corfforol. Gwnaethant ddefnyddio adnoddau sy'n hyrwyddo sgiliau creadigol a sgiliau echddygol manwl yn llwyddiannus. Roedd y plant yn gwrando'n astud yn ystod amser cylch ac yn rhannu eu teimladau â'r staff. Mae rhywfaint o gyfleoedd i'r plant ddatblygu sgiliau annibyniaeth yn ystod amser byrbryd wrth iddynt arllwys eu llaeth a'u dŵr eu hunain. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd eraill i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ystyried canllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Maent yn darparu dewisiadau iach i'r plant yn ystod amser byrbryd, gan gynnwys llaeth, dŵr ac amrywiaeth dda o ffrwythau, iogwrt, grawnfwydydd a thost. Mae'r rhai hynny sy'n paratoi byrbrydau ar gyfer y plant yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio cyfarpar diogelu personol addas er mwyn paratoi bwydydd ac yn diheintio'r byrddau cyn amser byrbryd. Mae'r staff yn cymryd cyfrifoldeb dros ddiwallu anghenion y plant. Maent yn diwallu anghenion deietegol ac anghenion iechyd y plant. Mae'r staff yn cydymffurfio â'r polisi newid cewynnau drwy ddefnyddio dillad amddiffynnol priodol a diheintio'r ardaloedd rhwng newid pob cewyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau amddiffyn plant a gwnaethant ymateb yn dda i'r senarios a drafodwyd yn ystod yr arolygiad. Mae'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol cyfredol mewn perthynas â chymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd. Caiff unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau ac anafiadau blaenorol eu cofnodi, gan gynnwys llofnod y staff a'r rhieni.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol, gan ddangos cwrteisi tuag at y plant wrth iddynt ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, roeddent yn cymryd cotiau a bagiau'r plant wrthynt gan ddweud 'diolch' wrth wneud hynny. Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant mewn ffordd sensitif. Roeddent yn ymgysylltu â'r plant yn dda, gan barchu eu dymuniadau pan oeddent am gael eu cysurwyr o bryd i'w gilydd. Mae'r staff yn annog y plant i ymddwyn yn dda. Maent yn rhoi anogaeth dawel i'r plant arafu wrth iddynt redeg o gwmpas yn gyffrous gyda'u ceir. Mae'r staff yn cydnabod talentau a chyflawniadau'r plant. Gwnaethant ofyn i'r plant a oeddent am fynd i'r toiled ac ymatebodd y staff gan ddweud, *"Ah, you're a superstar aren't you!"* Enghraifft arall oedd wrth iddynt gydnabod galluoedd y plant i siarad ac adnabod geiriau, gan ddweud *"Good talking! Da iawn!"* Mae'r staff yn canmol y plant sy'n tacluso ac yn dangos cwrteisi yn ystod amser byrbryd.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda iawn. Mae ganddynt brosesau effeithiol ar waith i arsylwi ar y plant ac asesu eu galluoedd ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer camau nesaf y plant yn y dyfodol. Mae'r staff yn rhoi trefniadau cynllunio 'yn y foment' ar waith mewn perthynas â diddordebau'r plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion dyddiol, yn ogystal â'r prosesau y mae angen iddynt eu dilyn er mwyn cael cymorth ychwanegol a gwneud atgyfeiriadau ar gyfer y plant sydd angen cymorth. Maent yn meithrin sgiliau iaith y plant yn dda. Mae'r staff yn gwella gallu'r plant i adnabod lliwiau, geiriau a rhifau yn Gymraeg drwy chwarae. Maent hefyd yn hybu sgiliau Cymraeg a Saesneg y plant drwy ganu caneuon. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau sy'n hyrwyddo gwybodaeth y plant am ddiwylliannau ac amrywiaeth a'u dealltwriaeth ohonynt, yn ogystal â'r dimensiwn Cymreig.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Caiff gwiriadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad eu diweddaru a'u gwirio'n rheolaidd. Caiff yr asesiadau risg manwl a chadarn eu hadolygu'n rheolaidd gan yr arweinydd. Mae'r staff a'r rheolwr yn cwblhau'r rhestrau gwirio dyddiol a'r asesiadau risg. Caiff ymarferion tân eu cynnal. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas. Mae digon o le yn yr amgylchedd dan do a cheir ardaloedd sy'n hyrwyddo diddordebau'r plant. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant. Mae'r ardaloedd newid a'r toiledau yn cynnig lefel addas o breifatrwydd ac urddas i'r plant, a cheir ardal newid cewynnau. Ceir sebon hylif a thywelion papur er mwyn i'r plant olchi a sychu eu dwylo. Mae'r amgylchedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae lluniau o'r plant o amgylch yr ystafell a chaiff eu gwaith crefft ei arddangos ar y byrddau arddangos. Caiff y plant gyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol yn ystod amseroedd bwyd a gweithgareddau pen bwrdd ar y bwrdd a'r cadeiriau lefel isel.  Ceir ardaloedd sy'n rhoi cyfle i'r plant gael amser i ymlacio. Rhennir yr ardal awyr agored fawr â phlant iau yr ysgol gynradd ac felly ar hyn o bryd, nid oes gan y plant ryddid i ddefnyddio'r ardal awyr agored fel y mynnont.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn dda a'u bod yn addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Mae amrywiaeth o adnoddau ar lefel y plant ac ar gael iddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cyfleoedd i'r plant gael gafael ar adnoddau sy'n gwella eu creadigrwydd, eu sgiliau iaith a'u chwilfrydedd megis llyfrau Cymraeg yn y gornel ddarllen, posau, pecynnau adeiladu, adnoddau chwarae byd bach ac adnoddau creadigol. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig cyfleoedd i'r plant fod yn greadigol, i ddatblygu'n gorfforol, i chwarae rôl yn y gegin fwd ac i wneud marciau. Mae llyfrau, doliau, pypedau, posau ac adnoddau chwarae rôl ar gael i'r plant sy'n cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau ac amrywiaeth.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diweddaru eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn eu rhoi ar waith yn ymarferol yn effeithiol. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru a'i rannu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod y broses arolygu ac mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon mewn perthynas ag amddiffyn plant neu pe bai honiad yn cael ei wneud yn eu herbyn. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys. Mae'r rhai hynny sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r cofnodion gofynnol. Mae'r rhain yn cynnwys contractau a chaniatadau ar gyfer y plant, sy'n cynnwys rhifau cyswllt mewn argyfwng a gwybodaeth feddygol a deietegol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal yn rheolaidd. Maent yn casglu barn y rhieni, y plant, y staff a sawl asiantaeth a sefydliad allanol er mwyn datblygu a gwella'r lleoliad. Maent yn darparu adroddiad manwl ac yn nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio digonol. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gwiriadau addasrwydd ar waith ac mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Fodd bynnag, ni chafodd y ddogfennaeth mewn perthynas â geirdaon ar gyfer un aelod o'r staff ei chyflwyno ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn ystod yr arolygiad, aeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ati ar unwaith i gael gafael ar y geirdaon. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod prosesau sefydlu da ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r hyfforddiant gorfodol ar waith. Fodd bynnag, byddai hyfforddiant Cymraeg o fudd i'r staff. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Mae gan y staff gydberthynas waith dda â'r rhai sy'n rhedeg y lleoliad, sy'n creu ethos gwaith iach. Mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi cael ei gwblhau a chafodd AGC ei hysbysu am newidiadau i'r lleoliad yn ystod yr arolygiad.

Mae'r partneriaethau yn gadarn. Mae'r rhai hynny sy'n rhedeg y lleoliad yn cyfathrebu ag ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymorth eraill. Maent yn ymgysylltu â'r rhieni a'r gofalwyr drwy apiau gwe-ffurflen, lle rhoddir gwybod iddynt am ddigwyddiadau yn y dyfodol, yn ogystal ag anghenion y plant a lluniau ohonynt. Rhennir llythyrau a chylchlythyrau â'r rhai hynny sy'n defnyddio'r lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ‘flwch awgrymiadau’ ar gyfer y rhieni sydd wedi'i leoli ger y fynedfa. Maent yn trefnu teithiau i'r parc lleol ac atyniadau eraill, megis ffermydd cymunedol a pharciau. Mae'r rhai hynny sy'n rhedeg y lleoliad yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol goedwig, digwyddiadau yn y gymuned

a ffeiriau. Gwahoddir y rhieni a'r gofalwyr i brynhawniau agored yn y lleoliad. Yn ôl y rhieni a'r gofalwyr, mae eu plant yn hapus wrth fynychu'r lleoliad ac yn gwneud cynnydd da. Maent o'r farn bod y staff yn ardderchog.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | Sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd | Newydd |
| 28 | Sicrhau bod gwiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer y staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Meithrin sgiliau annibyniaeth y plant ymhellach |
| Datblygu cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg i'r staff |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/08/2023